

DOLEN Y TAB 70

27–28 Awst 2021

Oedfa Rithiol Sul 29 Awst

Myfyrdod gan Rhiannon Humphreys a chyfraniadau gan aelodau eraill y teulu. Ar gael ar ein llwyfannau digidol.

Oedfaon 'Byw' Mis Medi

- 5 Yng nghwmni Edwyn Evans, Geraint Rees a John Llewelyn Thomas.
- 12 Yng ngofal Heulyn Rees a'r Parchg. Aled Edwards.
- 19 Yng ngofal Helen Prosser a Lowri a Dafydd Roberts.
- 26 Yng nghwmni Rhiannon Humphreys a'r teulu.

Hefyd ddydd Sul 29 Awst

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Geraint Rees, Capel y Tabernacl, Efail Isaf.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru. Cyflwynir oedfaon rhithiol yn lle'r bwletin yn ystod mis Awst.

EIN SIANEL YOU TUBE

A ninnau'n paratoi i ailagor y capel ar gyfer oedfaon, hoffem dynnu eich sylw at y ffaith bod mwyafrif y gwasanaethau rhithiol a rannwyd dros y 18 mis diwethaf ar gael mewn casgliad cyfleus ar ein sianel *You Tube*. Mae rhai oedfaon na fedrwn eu rhannu am na chafwyd caniatâd rhieni i ddangos eu plant, neu am eu bod yn deillio o gyfrif Facebook preifat. I weld y rhestr, cliciwch YMA.



Diolch yn fawr!

A ninnau'n agosáu at ddychwelyd i gydaddoli yn y Tabernacl am y tro cyntaf ers mis Mawrth 2020, mae'n briodol ein bod yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iawn i'r aelodau diwyd hynny sydd wedi gofalu bod tua 70 o oedfaon rhithiol wedi eu paratoi ar ein cyfer bob Sul, a hynny'n ddi-dor am 18 mis. Mae ein dyled yn fawr iawn i'r unigolion hynny sydd wedi meistrol'i'r dechnoleg, ac i bawb arall am eu parodrwydd i gyfrannu i'r oedfaon. Does dim amheuaeth bod yr oedfaon hyn wedi dod â bendith i lawer iawn ohonom, ac wedi chwarae rhan mor werthfawr yn y gwaith o gynnal ysbryd yr eglwys a lledaenu neges yr efengyl mor effeithiol dros gyfnod y clo.

Trefniadau Ailagor

Mae'n deg dweud bod nifer wedi teimlo'n rhwystredig bod drysau'r Tabernacl wedi aros ar gau pan oedd ambell gapel ac eglwys leol wedi llwyddo i gynnal oedfaon 'byw' yn ysbeidiol yn ystod y cyfnodau pan laciwyd y cyfyngiadau. Ond drwy'r holl drafodaethau a gafwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd, rhoddwyd y flaenoriaeth bob amser i ddiogelwch y gynulleidfa. Fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf i anelu at ddychwelyd i'r capel o'r 5^{ed} Medi ymlaen os byddai'r Llywodraeth, yn ôl y disgwyl, yn datgan bod Cymru'n symud i Lefel Rhybudd Sero. Bellach mae'r cyfrifoldeb yn cwmpo'n uniongyrchol arnom ni fel eglwys i gyflwyno mesurau rhesymol er mwyn lleihau'r perygl o ledaenu'r haint. Felly, yn gynnar ym mis Awst, trefnwyd i gynnal asesiad risg a pharatoi canllawiau priodol fyddai'n ein galluogi ni i ailagor ar y Sul cyntaf ym mis Medi.

Dros y dudalen cewch fanylion y trefniadau y byddwn yn eu mabwysiadu dros-dro am y Suliau cyntaf, ond gobeithiwn allu dychwelyd i drefniadau mwy cyfarwydd cyn diwedd Medi. Ar waethaf dieithrwrch y canllawiau a nodir, hyderwn yn fawr y byddwch yn croesawu cael cydaddoli yn y Tabernacl unwaith yn rhagor ac y cewch fendith o'r profiad.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 7 Medi. Os hoffech i'r Bwrdd drafod unrhyw fater, yna rhowch wybod i Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01433 225205 / 07710 237327) erbyn nos Lun 6 Medi fan bellaf.

Cyfrifoldebau a Chanllawiau'r Ailagor

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

1. Cynnal Asesiad Risg i glustnodi'r mesurau rhesymol y bydd raid eu mabwysiadu i leihau'r risg o ddal Covid-19 (e.e. awyru'r adeilad, glanhau seddau a chanllawiau cyn pob digwyddiad, darparu hylif dwylo yn y cyntedd, trefnu stiwardiaid i dywys pobl i'w seddau, pennu pellter cymdeithasol rhwng swigod).
2. Sicrhau bod y mesurau'n cael eu gweithredu'n llawn.
3. Gofalu hysbysu'r gynulleidfa [trwy e-bost/ Facebook/ Dolen y Tab] bod mesurau rhesymol i'w diogelu wedi eu paratoi, a nodi'r camau y bydd raid iddynt hwy fel unigolion eu dilyn os am fynychu oedfa.

AELODAU'R GYNULLEIDFA

1. Anfon (e-bost, teclistio neu ffonio) at capelytabernacl@gmail.com 07710 237327 / 01443 225205 **erbyn 6yh dydd Gwener 3 Medi** yn datgan eich bwriad i fynychu'r oedfa naill ai fel unigolyn neu fel rhan o swigen (2+) fel y gellir eich cofrestru.
2. Cofio gwisgo gorchudd wyneb wrth nesáu at fynedfa'r capel a thrwy gydol yr oedfa, oni bai eich bod yn cymryd rhan lle medrwch dynnu'r gorchudd i gyflwyno emyn, gweddi, darllen darn o'r Beibl ac ati o'r llwyfan.
3. Cadw draw o'r oedfa os oes gennych symptomau allai fod yn rai Covid-19, hefyd os ydych wedi derbyn prawf 'positif' neu wedi bod mewn cysylltiad agos ag unigolyn sydd wedi cael prawf 'positif' o fewn y 10 diwrnod diwethaf.

CYFLE OLAF I FWRW PLEIDLAIS

Eleni, bydd y gyfres deledu *Dechrau Canu Dechrau Canmol* yn 60 mlwydd oed. I gyd-fynd â'r digwyddiad hwn, bydd cyfle i bawb chwarae eu rhan trwy ddewis eu hoff emyn. Mae panel o arbenigwyr eisoes wedi cwrdd i lunio rhestr hir o ugain emyn poblogaidd, ac fe'ch gwahoddir i ddewis emyn o blith y rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr.

I hwylyso'r dasg cyn bwrw eich pleidlais, mae modd troi at dudalen Dechrau Canu Dechrau Canmol ar wefan S4C [Dechrau Canu Dechrau Canmol | S4C](#) i wyllo darllediad o bob un o'r 20 emyn. Ar y dudalen honno mae ffurflen lle medrwch anfon eich dewis yn ddigidol. Bydd modd hefyd i chi fwrw eich pleidlais drwy ffonio cwmni Rondo ar 02920 223456.

Dyddiad cau: 30 Awst 2021

AMSERLEN Y SULIAU

(Amserlen dros-dro yn unig yw hon gan obeithio y medrwn ei llacio ymhellach cyn diwedd Medi).

09.30 – 10.15

Oedfa Saesneg. Ni ddylai'r oedfa ymestyn dros dri chwarter awr.

11.00 – 11.45

Oedfa Gymraeg. I ddechrau am 11 yn hytrach nag am 10.45 er mwyn gadael bwlch digonol rhwng y ddwy oedfa. Ni ddylai'r oedfa hon chwaith ymestyn dros dri chwarter awr.

11.00 – 11.45

Ysgol Sul. Neuadd y Pentref a/neu'r Ganolfan. (Dyddiad aildechrau'r Ysgol Sul i'w gadarnhau.)

1. Ni chynhelir Cymun ar y 5^{ed} o Fedi, ond gobeithiwn wneud hynny o Sul cyntaf Hydref ymlaen.
2. Bydd gofyn i bawb gofrestru i gael sedd ymlaen llaw os am fynychu oedfa.
3. Bydd angen i aelodau'r gynulleidfa wisgo gorchudd wyneb, ac eithrio'r rhai sy'n dod i'r blaen i gymryd rhan.
4. Fe ganiateir canu a chyd-ddarllen cynulleidfaol.
5. Bydd hylif diheintio ar gael i bawb ger y fynedfa, a bydd stiwardiaid wrth y drws i'ch tywys i'r seddau cadw.
6. Bydd gofyn i chi ddilyn y cyfarwyddiadau wrth adael y capel ar ddiwedd oedfa.
7. Ymhlith y mesurau diogelwch eraill, byddwn yn cadw'r ffenestri a'r drysau ar agor cyn ac yn ystod yr oedfa. Felly cadwch hynny mewn cof wrth benderfynu beth i'w wisgo!

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.